

Ein gwaith yng Nghymru



Mae Dyfrffyrdd yn cynnig lle i enaid gael llonydd, cyfleoedd i bobl wella eu hiechyd a'u lles a'r cyfle i gysylltu â natur a phobl eraill.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein camlesi yng Nghymru yn ddyfrffyrdd byw, sy'n llawn gweithgarwch a'u bod yn helpu i drawsnewid llyfdd a chyfoethogi bywydau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd i newid y ffordd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ac adnoddau naturiol yn cael eu rheoli. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ceisio gwella'r amgylchedd, yr economi a chydaddoldeb. Rydym eisoes yn cyfrannu 16 o'r 40 o ddangosyddion yr ymgynghorwyd arnynt ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae yna gydberthynas gref rhwng nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r fframwaith canlyniadau rydym yn eu datblygu ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd er mwyn llywio sut rydym yn mesur a gwerthuso'r ffordd rydym yn gweithio.

Gofalu am ein dyfrffyrdd

Yn 2015/16 rydym wedi buddsoddi dros £2.5 miliwn ar warchod Camlas Mynwy ac Aberhonddu sydd yn fwy na'n costau gweithredol o ddydd i ddydd. Roedd gwaith yn cynnwys ail-leinio darn 500 metr o'r gamlas yn Llangynidr er mwyn diogelu'r arglawdd ac atal y gamlas rhag gollwng,

gwerth £540,000 o waith atgyweirio i ddyfrbont hanesyddol Glanfa Goetre a £500,000 a mwy i garthu'r gamlas er mwyn ei gwneud yn haws i eraill deithio arni.

Daeth dros 300 o bobl i'n diwrnod agored yn Llangynidr gydag ymwelwyr yn manteisio ar y cyfle i archwilio gwely'r gamlas a'r lloc wedi iddynt gael eu draenio. Mae ein gwaith parhaus i wella llwybrau tynnu yn helpu pobl i fanteisio ar y mynediad rhwydd y mae'r llwybrau distawach hyn yn eu cynnig. Mae ein teithiau beic tywys a gynhelir yn rheolaidd ar gyfer menywod yn unig ar hyd Camlas Llangollen hefyd yn annog menywod sy'n newydd i'r gamp neu sy'n nerfus am feicio i wella eu hiechyd a'u lles.

Creu llefydd arbennig

Yn 2013, fe wnaethom drawsnewid hen odynau calch hanesyddol sydd ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu gan greu 'ogofeydd ystumod'. Ym mis Chwefror 2016, cadarnhaodd arbenigwyr fod yr ystumod pedol lleiaf sy'n cael eu gwarchod yn defnyddio'r odynau i gysgu ynddynt dros y gaeaf am y tro cyntaf, a dyna oedd ein boblaith.

Rydym yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a phartneriaid cyhoeddus a phreifat eraill er mwyn llunio strategaeth tymor hir ar gyfer yr ardal o amgylch Safle Treftadaeth y Byd Camlas Pontcysyllte. Bydd y strategaeth hon yn sefydlu gweledigaeth er mwyn llywio ein gwaith am y deng i bymtheng mlynedd nesaf.

Yn dilyn tendr llwyddiannus, agorwyd stondin bwyd a diod symudol newydd ym Masn Trefor ac mae'n ychwanegiad gwerthfawr i'r atyniad poblogaidd hwn i dwristiaid.

Defnyddio dyfrffyrdd i greu cymunedau ffyniannus a llewyrchus

Yng Nglanfa Goetre, rydym yn cydweithio ag ABC Leisure i drawsnewid y safle hwn. Mae'r caffi a'r bwthyn gwyliau wedi'u hailwampio ac rydym yn croesawu nifer cynyddol o ymwelwyr.

Mae ein rhaglen artist preswyl, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, wedi parhau gyda Mair Hughes ar Gamlas



Mynwy, Cheon Pyo Lee ar Gamlas Abertawe a Mo Abd-Ulla ar Gamlas Llangollen yn Nhrefor. Cychwynnodd Nicky Coutts ar un o ddau gyfnod preswyl Ewropeaidd, yn y Drenewydd ac Emscher.

Rydym yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gamlas Llangollen ar raglen beilot padlo i deuluoedd ac rydym yn gwella mynediad i'r gamlas ac Afon Dyfrdwy fel rhan o brosiect gwerth £90,000.

Cynnwys pobl yn eu gofal

Mae trigolion lleol yn cael eu cynnwys fwyfwy yn y gwaith o ofalu am eu dyfrffyrdd. Yng Nghymru, mae gennym chwe chynllun mabwysiadu cymunedol erbyn hyn, ac mae ein gwirfoddolwyr ymroddgar wedi rhoi 21,500 a mwy o oriau i gefnogi ein gwaith.

Images: Clockwise from left:
Canal & River Trust at the Royal Welsh Show, Relining the Monmouthshire & Brecon Canal, Canoeing on the Montgomery Canal



Fel rhan o brosiect Llwybrau Odynau Calch Camlas Mynwy ac Aberhonddu, a gyllidwyd drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, mae ein gwirfoddolwyr a'n contractwyr wedi cael hyfforddiant arbenigol mewn agweddau fel ymwybyddiaeth o dreftadaeth, sgiliau adeiladu traddodiadol a'r defnydd o forter calch.

Ar y cyd â Phartneriaeth camlas Maldwyn, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau cymunedol ar hyd y gamlas yn arddangos y ddyfrffordd ac yn tynnu sylw at fanteision y prosiect adfer i'r ardal a'r cymunedau gerllaw. Roedd cyfleoedd hefyd i drigolion lleol roi eu sylwadau ar y gweithgareddau y dylid eu datblygu ar hyd y ddyfrffordd.

Ymestyn ein Dylanwad

Ar ddiwedd 2015, sefydlwyd Bwrdd Glandŵr Cymru. Mae'n deillio o'n Partneriaeth Cymru Gyfan ac mae'r Bwrdd newydd hwn yn creu cyswllt uniongyrchol i Gymru gyda'n hymddiriedolwyr a'n tîm gweithredol.

Unwaith eto, rhoddodd ein presenoldeb yn Sioe Frenhinol Llanellwedd gyfle i ni gyflwyno ein gwaith i ddarpar bartneriaid ac Aelodau Cynulliad. Bu'r Tîm Forwyr Glandŵr yn gweithio gyda 1,700 o blant yn ystod y digwyddiad, gan eu cyflwyno i fywyd gwylt a hanes ein dyfrffordd.

Ym mis Mehefin 2015, fe wnaeth Ken Skates AC, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Lynne Berry

OBE, Cadeirydd Glandŵr Cymru a Christopher Catling, Ysgrifennydd (Prif Weithredwr) Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru helpu i lansio llawlyfr Dyfrbont a Chamlas a Chamlesi Pontcysyllte mewn digwyddiad arbennig yn Nhrefor.

Datblygu ein hadnoddau

Yn 2015, defnyddiwyd 'Sustainability Impact Assessment', cyhoeddiad gan Peter Brett Associates, fel cyfle i hyrwyddo'r achos dros ailwampio Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn ei chyfanrwydd fel esiampl o ddatblygiad cynaliadwy heb ei ail - fel ffordd o adfywio'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol ac fel cyfle i wella lles corfforol a meddyliol rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.